

# anthem.

## YMGYNGHORIAD ATSAIN 2025/26

# TABL CYNNWYS


## 1. Cyflwyniad a Chrynodeb o'r Ymgynghoriad

1.1 Trosolwg o'r Ymgynghoriad .......... 2

1.2 Ynglŷn ag Anthem .......... 3

1.3 Cwestiynau Ymchwil .......... 4

## 2. Cyd-destun

2.1 Youth Music Industry Connect .......... 4

2.2 Gwaith Blaenorol Anthem .......... 5

2.3 Arsylwadau .......... 7

## 3. Ynglŷn â'r Ymgynghoriad

3.1 Pwy Wnaethon ni Siarad â Nhw .......... 8

3.2 Trosolwg o'r Sefydliadau .......... 8

## 4. Prif Ganfyddiadau

4.1 Prif Ganfyddiadau .......... 13

## 5. Beth Ddwedodd y Bobl Ifanc Wrthym

5.1 Teithiau Cerddorol .......... 14

5.2 Rhwystrau i Gerddoriaeth .......... 18

5.3 Profiad o'r Prosiectau a'r Cymorth a Gafwyd .......... 23

5.4 Y Dyfodol .......... 26

## 6. Myfyrdodau'r Sefydliadau

6.1 Arsylwadau Cychwynnol .......... 31

6.2 Myfyrdodau ar ôl y Prosiectau .......... 33

## 7. Casgliad: Symud Ymlaen .......... 38

## 8. Llyfryddiaeth .......... 39



# TROSOLWG O’R YMGYNGHORIAD

Bu’r ymgynghoriad yn gweithio gyda phum sefydliad a dderbyniodd gyllid drwy chweched cylch cyllido Atsain Anthem i ddarganfod pa rwystrau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc o ran cael mynediad at gerddoriaeth ledled Cymru.

Pwrpas yr ymchwil yw deall beth sy'n helpu neu'n atal pobl ifanc yng Nghymru rhag mynd i fyd cerddoriaeth. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl ifanc eisiau creu, dysgu neu chwarae cerddoriaeth ond nid yw bob amser yn hawdd. Gall pethau fel cost, teithio, hyder, neu hyd yn oed beth sydd ar gael yn eu hardal ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw ddechrau arni.

Mae Anthem eisiau sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn gallu cael mynediad at gerddoriaeth, ble bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag yw eu cefndir.

Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi'i ysbrydoli gan adroddiad *Industry Connect* gan Youth Music, a oedd yn edrych ar y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio ymuno â'r diwydiannau cerddoriaeth ledled y DU. Mae Anthem eisiau adeiladu ar y gwaith hwnnw drwy edrych yn benodol ar brofiadau pobl ifanc yma yng Nghymru. Rydyn ni’n teimlo ei bod yn bwysig bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud i’r sefyllfa yng Nghymru a bod Cymru’n cael ei chynrychioli'n briodol yn y gwaith hwn.

Mae’r gwaith ymchwil hwn yn helpu Anthem, ynghyd â’r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru a'r DU yn ehangach, i ddeall pa rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, dysgu pa fathau o gymorth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a gweithio tuag at greu cyfleoedd cerddoriaeth mwy cynhwysol a hygyrch i bawb.

Diolch i'r holl bobl ifanc a'r sefydliadau a roddodd o’u hamser i rannu'u profiadau â ni.

Ysgrifennwyd yr adroddiad ymgynghori llawn gan yr ymchwilydd llawrydd Ella Edwards Beavington.

## 1.2 Ynglŷn ag Anthem.

### Gweledigaeth Anthem yw Cymru lle mae pobl ifanc yn arwain ecosystem cerddoriaeth ieuenctid bywiog a chysylltiedig.

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru l Music Fund Wales yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru a oedd yn archwilio ffyrdd o gynorthwyo pobl ifanc i greu a dysgu am gerddoriaeth yng Nghymru.

Mae Anthem yn dod â phobl ifanc, partneriaid, artistiaid a'r sector cerddoriaeth ieuenctid ehangach at ei gilydd i sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn gallu ymwneud â cherddoriaeth yn eu cymunedau a'i siapio. Trwy gyd-greu â phobl ifanc a phartneriaid, rydyn ni'n rhoi llais ieuenctid wrth wraidd ein gwaith, gan feithrin talent, creadigrwydd, hyder a chymunedau cryfach.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol pwerus i bobl ifanc sy'n ysgogi hunanfynegiant, datblygiad personol a llesiant. Fel catalydd i gerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, rydyn ni'n sbarduno newid drwy fuddsoddi mewn mentrau effeithiol, adeiladu partneriaethau i gryfhau ecosystem cerddoriaeth, a hyrwyddo arferion gorau ac arloesol.

### Nodau Strategol (2026 – 30)

**Galluogi Mynediad:** Cyrraedd pobl ifanc sydd â mynediad anghyfartal oherwydd amddifadedd cymdeithasol, ynysu gwledig neu amgylchiadau heriol eraill, ac ehangu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, drwy gerddoriaeth ieuenctid.

**Hybu Cynaliadwyedd:** gweithio gyda'r sector ar brosiectau partneriaeth sy'n cryfhau seilwaith ar gyfer darpariaeth cerddoriaeth, llenwi bylchau, adeiladu sgiliau a chreu llwybrau cynaliadwy i bobl ifanc.

**Meithrin Talent:** Creu cyfleoedd sy'n grymuso pobl ifanc sydd â photensial creadgol i ddatblygu, gyda chefnogaeth partneriaethau a rhaglenni ystyrlon.

## 1.3 Cwestiynau Ymchwil

| | | |
|---|---|---|
| Pa rwystrau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc o ran cael mynediad at gerddoriaeth ledled Cymru? | Sut mae diwydiant cerddoriaeth Cymru yn mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn ar hyn o bryd, os o gwbl? | Beth sydd angen ei wneud i gynyddu mynediad i bobl ifanc ymhellach? |

# CYD-DESTUN

## 2.1 Youth Music Industry Connect

Yn 2024, cynhaliodd Youth Music ymgynghoriadau gydag oedolion ifanc sy'n dilyn gyrfaoedd yn y diwydiant cerdd, a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo i wneud hynny.

Roedd eu hymchwil yn ceisio darganfod:

*“Sut olwg sydd ar 'waith mewn cerddoriaeth' i bobl ifanc?”*

*“Pa fathau o 'lwybrau' i'r diwydiant sy'n bodoli ar hyn o bryd?”*

*“Oes angen rhwydwaith ffurfiol?”*

Sut y gall y diwydiant gymryd camau i:

→ “Gwella cyfleoedd cyflogadwyedd i gymunedau a ymyleiddiwyd”

→ “Cefnogi twf seilwaith lleol ar gyfer gwaith y diwydiannau cerddoriaeth”

→ “Annog mwy o gydweithio ar draws sectorau”

→ “Newid y ffyrdd y mae gyrfaoedd mewn cerddoriaeth yn cael eu deall a’u hyrwyddo”

### Uchafbwyntiau’r Ymchwil

**Mae bwlch rhwng dysgu ac ennill bywoliaeth yn niwydiant cerddoriaeth y DU**, lle nad oes cyfleoedd i bobl ifanc dyfu a datblygu eu hangerdd am gerddoriaeth i greu gyrfa gynaliadwy.

Ar hyn o bryd, **ychydig iawn y mae addysg cerddoriaeth yn ei wneud i baratoi pobl ifanc ar gyfer gyrfaoedd fel gweithwyr llawrydd**, er bod 70% o weithlu'r diwydiant yn ystyried eu hunain o dan y label hwn.

**Nid oes un llwybr unigol i waith â thâl drwy'r diwydiant cerddoriaeth**, ac mae ceisio symleiddio'r diwydiant drwy ddiffiniad 'unigol' yn 'rhwystr i gael mwy o amrywiaeth yn ei weithlu'.

**Mae gan bobl ifanc ddiffyg mynediad** at rwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol, cyllid a chyfleoedd i roi llwyfan i'w hunain a'u cerddoriaeth.

Mae gyrfaoedd yn dal i gael eu hystyried yn ffrwd o **'bwy rydych chi’n eu hadnabod**'.

Mae rhwystrau'n cael eu gwaethygu ymhellach i bobl ifanc o **gefndiroedd a ymyleiddiwyd**.

## 2.2 Gwaith Blaenorol Anthem

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn adeiladu ar ymchwil flaenorol Anthem, gan gynnwys eu 'Hymgynghoriad â Phobl Ifanc Greadigol sy'n Byw yng Nghymru' 2022 (Llwybrau Digidol) ac Adroddiadau Effaith 2021 – 2024. Yn y ddau adroddiad, gwnaeth Anthem nodi sawl rhwystr a oedd yn effeithio ar gyfranogiad pobl ifanc mewn prosiectau cerddoriaeth ieuenctid ledled Cymru.

### 2022 Ymgynghoriad Llwybrau Digidol

Mynegodd tua 70% o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo fel petaent wedi wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

### Costau ac arian

Teimlai pobl ifanc na allent ennill eu hunig incwm drwy weithio yn y diwydiant cerddoriaeth, ac roedd yn rhaid iddynt chwilio am swyddi mewn mannau eraill i'w cynnal eu hunain yn ariannol.

Toriadau ariannol sy'n targedu'r celfyddydau, lleoliadau a digwyddiadau yng Nghymru, gan gyfrannu at effaith negyddol ar bobl ifanc.

### Rhwystrau daearyddol

Llai o gyfleoedd i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig. Anghysondeb trafnidiaeth gyhoeddus yn llesteirio'r sector yn ei gyfanrwydd.

### Rhwystrau'n ymwneud â hunaniaethau, cefndiroedd ac amgylchiadau bywyd

### Diffyg cyfleoedd addysg, gwybodaeth a chanllawiau gyrfa

Yn debyg iawn i ganfyddiadau adroddiad *Industry Connect* Youth Music, mae pobl ifanc yn teimlo bod yr addysg y maen nhw'n ei derbyn yn brin o ffocws ar yrfaoedd a chyflogadwyedd.

### 2021 – 2024 Adroddiad Effaith

Gwnaeth yr adroddiad hwn gynnal arolwg o rai o'r prosiectau a ariannwyd yn flaenorol gan Anthem, er mwyn nodi pa heriau yr oedd pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu a sut roedd prosiectau cerddoriaeth ledled Cymru yn grymuso eu bywydau:

**Canlyniadau i Bobl Ifanc**

**Personol a Chymdeithasol**
- → Hunanfynegiant
- → Mwy o hunanhyder
- → Gwytnwch
- → Ymdeimlad o falchder
- → Ymdeimlad o gymuned a pherthynas
- → Hunan-gred
- → Cyfeillgarwch, cysylltiadau ag eraill
- → Sgiliau cyfathrebu

**Creadigol**
- → Cyfansoddi caneuon, ysgrifennu geiriau
- → Ailgymysgu, DJ-io
- → Rapio
- → Jamio
- → Chwarae offerynnau
- → Sgiliau llwyfan a pherfformio

## Beth Wnaeth i Brosiectau Lwyddo

- Darparu cymorth drwy brosiectau i bobl ifanc eirioli dros ddiwallu eu hanghenion, a'u cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau eraill.
- Dull personol gan artistiaid a fu'n adeiladu perthynas â chyfranogwyr gan eu galluogi i gymryd rhan
- Creu man diogel i bobl ifanc weithio
- Gweithio gyda gwasanaethau'r cyngor i ddarparu trafnidiaeth i bobl ifanc fynychu sesiynau
- Defnyddio cyfansoddi caneuon ac ysgrifennu geiriau i hybu lles a mynegiant emosiynol
- Meithrin talent mewn mannau y tu allan i fyd addysg.

# 2.3 Arsylwadau

Wrth fyfyrio ar y gwaith ymchwil hwn, mae nifer o arsylwadau allweddol sy'n llywio'r ymgynghoriad:

Mae amgylcheddau addysgol anffurfiol yr un mor ddilys â rhai ffurfiol. Mae cymdeithasu, rhwydweithio, cydweithio a chyfathrebu yn gyfnewidiol ar draws y ddau amgylchedd.

Mae dysgu drwy arsylwi a mentora yn fuddiol i ennyn ysbrydoliaeth a chymhelliant ymhlith pobl ifanc, ac i'w atgoffa bod eu nodau'n gyraeddadwy.

Nid oes un llwybr 'cywir' nac 'anghywir' i yrfa yn y diwydiant cerdd, ac mae angen dulliau amrywiol, pwrpasol ar bobl ifanc fel bod eu harddulliau datblygu unigol yn cael eu dilysu a'u deall.

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn parhau i wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at gyfleoedd oherwydd eu:

**Lleoliad ffisegol** | **Sefyllfa ariannol** | **Cefndiroedd personol a chymdeithasol**

# YNGLŶN Â'R YMGYNGHORIAD

## 3.1 Pwy Wnaethon ni Siarad â Nhw

Fe wnaethon ni siarad ag 17 o gyfranogwyr ifanc, yn ogystal â hwyluswyr a threfnwyr prosiectau cerddoriaeth a ariannwyd gan chweched cylch cyllido Atsain Anthem.

Roedd y bobl ifanc yn dod o gefndiroedd daearyddol a chymdeithasol amrywiol ac roedden nhw o oedrannau gwahanol. Daeth pob un â safbwyntiau unigryw, wedi'u grymuso gan eu profiadau bywyd blaenorol, eu cefndir a'u hangerdd dros gerddoriaeth.

Roedd hwyluswyr a threfnwyr y prosiectau eu hunain yn gerddorion profiadol neu'n weithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerdd, ac wedi cronni llawer o arsylwadau ystyrlon o'u gwaith helaeth gyda phobl ifanc drwy gydol eu gyrfaoedd.

## 3.2 Ynglŷn â'r Sefydliadau a'u Prosiectau

Roedd chweched cylch cyllido Atsain 24/25 Anthem yn cynnig cymorth i saith rhaglen gerddoriaeth ledled Cymru. Dewisodd pump o'r rhain gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn:

### RecRock, Caerffili

Mae RecRock wedi bod yn cynnal gweithgareddau cerddoriaeth i bobl ifanc yn ardaloedd Caerffili a Blaenau Gwent ers dros ddegawd, gyda'r nod o gynorthwyo pobl o gefndiroedd difreintiedig ac sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, a hynny drwy gerddoriaeth. Mae eu gwaith yn targedu pobl o bob oed, gan ddangos sut gall pŵer cerddoriaeth adeiladu cysylltiadau ystyrlon ar draws cymunedau.

### Ysgol Roc

Crëwyd prosiect Ysgol Roc fel cyfrwng i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn ardal Caerffili. Caiff y prosiect ei redeg yn ystod gwyliau'r ysgol i frwydro yn erbyn unigrwydd, gan lenwi'r bwlch i lawer o bobl ifanc sy'n profi

ynysigrwydd cymdeithasol yn ystod y cyfnodau hyn. Mae'r gweithdai yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwahanol agweddau ar y diwydiant cerddoriaeth ynghyd â pherfformio, gan gynnwys:

- Ffotograffiaeth
- Cyfansoddi caneuon
- Y cyfryngau cymdeithasol
- Sgiliau digidol
- Dylunio
- Cynnal digwyddiadau
- Sain fyw

Mae'r prosiect hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Mind Our Future a Promo Cymru i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl rhwng cymheiriaid i'r cyfranogwyr, yn ogystal ag ymgorffori iechyd meddwl a llesiant yn eu hymarfer creadigol drwy sesiynau cyfansoddi caneuon.

## Porthi Dre, Caernarfon

Cenhadaeth graidd yr elusen yw rhoi hwb i gymuned leol Caernarfon drwy fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol a'r rhwystrau cymdeithasol y mae aelodau o'u cymuned yn eu hwynebu, gan gynnig cymorth i bobl o bob oed a chefndir. Ochr yn ochr â'u gweithgareddau hamdden, maen nhw hefyd yn rhoi mynediad at brydau poeth, dillad ail-law a banc bwyd yn eu hwb cymunedol. Mae eu gwaith yn canolbwyntio'n gryf ar gryfhau cymunedau a mentrau iaith Gymraeg oherwydd eu lleoliad.

## Cofi Miwsig

Crëwyd y prosiect 26 wythnos mewn partneriaeth â'r cerddor proffesiynol lleol Mei Tomos a'r cydlynydd Cai Samuel. Y nod oedd grymuso pobl ifanc o Gaernarfon sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wardiau Cadnant a Peblig (y maen nhw'n eu hystyried fel rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru). Nod y prosiect oedd defnyddio pŵer datblygu sgiliau i feithrin hyder ymhlith pobl ifanc i ddatblygu dyfodol ym myd cerddoriaeth. Roedd y prosiect yn

darparu gweithdai gan gerddorion llawrydd proffesiynol i ffurfio blociau adeiladu cerddorol, gan gynnwys:

- Cyfansoddi caneuon
- Perchnogaeth dros ganeuon
- Sgiliau cynhyrchu
- Llwybrau i'r diwydiant

## The Hold Up Arts Collective, Blaenau Gwent

Mae THU Arts Collective yn sefydliad sy'n defnyddio pŵer diwylliant hip-hop i hybu newid ymhlith cymunedau ieuenctid o amgylch ardal Blaenau Gwent. Wedi'u harwain gan egwyddorion diwylliant hip-hop, maen nhw’n ceisio darparu gofod ar gyfer hunanymwybyddiaeth, dysgu gydol oes,
dilysrwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae eu gwaith yn cael ei arwain gan y cyfranogwyr ac yn cael ei ddylunio ar sail adborth gan bobl ifanc a'u cymunedau lleol.

## Hip Hop Harmony

Nod Hip Hop Harmony yw grymuso ac ysbrydoli pobl ifanc yn ardal Llanhiledd drwy ddefnyddio sylfeini diwylliant hip-hop: dyfeisgarwch, gwytnwch a hunanfynegiant. Bydd y sgiliau hyn yn helpu i annog pobl ifanc i fynd i'r afael â'u rhwystrau personol ac economaidd-gymdeithasol a'u goresgyn drwy gyfrwng creadigol. Trwy eu partneriaethau â Sefydliad Glowyr Llanhiledd a Chanolfan Plant Clwb Llan, maen nhw’n defnyddio cyfranogiad teuluol i feithrin cysylltiadau rhwng y cenedlaethau. Mae eu gweithdai'n canolbwyntio ar gyflwyno pobl ifanc i wahanol agweddau ar ddiwylliant hip-hop, gan gynnwys:

- Bîtbocsio
- Creu curiadau a chynhyrchu cerddoriaeth
- MCio
- Brecddawnsio
- DJio

## Côr Un Byd Cymru, Caerdydd

Mae Côr Un Byd Cymru – sef Côr Un Byd Oasis gynt – wedi'i leoli yng Nghanolfan Oasis, yng nghanol y Sblot yng Nghaerdydd. Ers ei sefydlu yn 2008, mae mudiad Oasis wedi cynnig cymorth a gofod cymunedol i tua 2,500 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches bob blwyddyn yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r ganolfan yn darparu sefydlogrwydd a lloches i'r rhai sy'n symud drwy'r broses loches, gyda staff wedi'u hyfforddi mewn rolau cymorth amrywiol yn ogystal â chynnig cyfleoedd hamdden, hyfforddiant ac addysg, a phrydau poeth.

## Grŵp Ieuenctid Côr Un Byd Cymru (WOW)

Datblygodd grŵp ieuenctid WOW o'r côr mawr, gan greu gofod i bobl ifanc gymdeithasu a chreu cerddoriaeth mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar. Mae'r grŵp yn rhoi pwyslais cryf ar gyfnewid diwylliannol, ac mae ieithoedd, mudiadau a straeon amrywiol yn cael eu hymgorffori yn eu perfformiadau i adlewyrchu cefndiroedd unigryw eu cyfranogwyr ifanc. Mae'r prosiect yn darparu sesiynau blasu a oedd yn rhoi arweiniad ar:

- Cyfansoddi caneuon a geiriau
- Crefft perfformio
- Drymio ac offerynnau taro
- Offerynnau taro â'r corff
- Symud a choreograffeg
- Trefnu digwyddiadau byw

## Theatr Byd Bach, Aberteifi

Mae Theatr Byd Bach yn theatr amgylcheddol yn Aberteifi yng ngorllewin Cymru. Mae'n creu prosiectau creadigol arloesol gyda ffocws ar hygyrchedd, amrywiaeth, cymuned a chyfiawnder hinsawdd. Mae eu portffolio yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau creadigol, gan gynnwys theatr bypedau, syrcas awyr, cerddoriaeth ieuenctid a lles creadigol cyfannol.

## Tonau Amethyst

Mae prosiect ehangach Amethyst yn cynnwys sawl rhaglen sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl, gan gyfuno arferion creadigol amrywiol gyda dulliau therapiwtig. Fel rhan o hyn, fe wnaethon nhw dreialu prosiect cerddoriaeth, Tonau, gyda dwy elfen o ddarpariaeth (Trydan a Byw) a'i nod oedd cynorthwyo gwahanol grwpiau o bobl ifanc.

Mae Tonau Trydan yn cynnig gweithdai DJio i bobl ifanc benywaidd, traws ac anneuaidd, sydd wedi'u tangynrychioli'n eang yn y maes hwn. Roedd Tonau Byw, a alwyd hefyd yn 'Ysgol Roc' gan y cyfranogwyr, yn lle i bobl ifanc ffurfio bandiau a chreu cerddoriaeth wreiddiol o dan arweiniad hwyluswyr cerddoriaeth proffesiynol.

Mae'r ddwy elfen yn rhoi cyfle i bobl ifanc:

- Cydweithio, cymuno a dod i gyswllt â cherddorion ifanc eraill
- Gwella eu hyder mewn mynegiant cerddorol a hunanfynegiant
- Cael lle i greu gwaith cerddorol
- Dysgu sgiliau newydd
- Gwella lles corfforol a meddyliol



# PRIF GANFYDDIADAU

**Hunanhyder yw'r rhwystr mwyaf sy'n atal pobl ifanc rhag manteisio ar gyfleoedd cerddorol yng Nghymru.**

**Mae mynediad am ddim at offerynnau, offer, a sesiynau wedi'u darparu'n lleol yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi cyfranogiad.**

**Mae pobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn wynebu mynediad sylweddol llai at brosiectau cerddoriaeth a digwyddiadau byw o'u cymharu â'r rheiny mewn ardaloedd trefol.**

**Mae teithio'n parhau i fod yn un o'r rhwystrau mwyaf parhaus a chyfyngol i bobl ifanc yng Nghymru o ran cymryd rhan mewn prosiectau cerdd.**

**Mae rhaglenni cerdd yn darparu mannau diogel a chefnogol hanfodol sy'n meithrin hyder a chyswllt cymdeithasol ac yn hybu llesiant cadarnhaol ymhlith pobl ifanc.**

# Beth Ddwedodd y Bobl Ifanc Wrthym

## 5.1 Teithiau Cerddorol

Gwahoddwyd y bobl ifanc i drafod eu cefndiroedd cerddorol, o'u hawydd cynharaf i ymwneud â cherddoriaeth i'w rhan bresennol mewn cerddoriaeth yn yr ysgol ac mewn rhaglenni allgyrsiol.
Y cwestiynau a ofynnwyd oedd:

1. Sut y dechreuoch chi ymddiddori mewn cerddoriaeth?
2. Oes gan aelodau o'ch teulu gefndir cerddorol?
3. Pa gyfleoedd cerddoriaeth ydych chi'n cymryd rhan ynddyn nhw yn yr ysgol?
4. Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau cerddorol eraill y tu allan i'r ysgol?
5. Ydych chi wedi bod i unrhyw ddigwyddiadau cerddorol?

Lluniwyd y cwestiynau hyn i ddarganfod…
1. A yw pobl ifanc yn fwy tebygol o ddilyn trywydd cerddorol os oes ganddyn nhw gefndir teuluol
2. Faint o gyfleoedd i ymwneud â cherddoriaeth sy'n cael eu cynnig ar draws ysgolion Cymru
3. Pa brosiectau cerddoriaeth eraill sydd ar gael y tu allan i'r ysgol yn ardaloedd lleol y cyfranogwyr
4. A yw'n anoddach cael mynediad at ddigwyddiadau cerddorol mewn cymunedau gwledig o gymharu â chymunedau trefol.

### Canfyddiadau Allweddol

### *Sut y dechreuoch chi ymddiddori mewn cerddoriaeth?*

Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (57%) eu cyflwyno i gerddoriaeth gan aelod o'u teulu, eu rhieni gan amlaf. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r bobl ifanc yn diffinio eu hunain fel rhai sy'n dod o 'gefndir cerddorol' penodol. Gallwn weld bod yr holl gyfranogwyr y siaradon ni â nhw wedi cael eu hannog gan eu teuluoedd:

*"Dangosodd fy nhad-cu i mi sut i chwarae gitâr. Roedd fy mam, rwy'n meddwl, yn chwarae ychydig o gitâr ac roedd fy wncwl yn angerddol iawn amdano. Fy wncwl wnaeth fy*

*"Pan oeddwn i tua pump oed, mi wnaeth mam brynu gitâr i fi, ac mi o'n i'n hoffi ei chwarae hi'n fawr. Mi fyswn i'n eistedd yn fy ystafell yn ei chwarae. Ac yna mi wnes i ddechrau chwarae*

*nghyflwyno i roc, ac roeddwn i eisiau dysgu offerynnau. Felly rwy nawr wedi bod yn chwarae'r drymiau ers saith mlynedd ac rwy'n eu hoffi'n fawr iawn."* (RecRock)

*"Roedd fy nhad yn chwarae gitâr ac fe wnaeth fy nysgu i, wedyn fe es i at y drymiau."* (RecRock)

*"Fy mam, mae hi'n chwarae bas. Ond roedd fy mam a fy nhad yn mynd â fi i gyngherddau ac ati pan o'n i'n iau."* (RecRock)

*"Pan o'n i dipyn yn iau, ro'n i'n gallu clywed fy nhad yn rapio, a jest clywed ei gerddoriaeth.* (THU Collective)

*"Dyma fi'n cydio yng ngitâr acwstig fy mam; fe wnes i ddysgu un cord a cheisio chwarae'r un cord yna dros bob cân y gallwn i ddod o hyd iddi. […] Fe wnaeth fy mam ddysgu chwarae'r gitâr sbel yn ôl, ond dydy hi ddim yn chwarae mwyach. Mae fy nhad-cu wedi bod yn chwarae ers sbel."* (Byd Bach)

*"Fe wnes i ddechrau canu pan o'n i'n dair oed. Mae gan mam fideo ohonof i ar Facebook yn canu caneuon. Pan oedd mam yn ifanc, roedd hi'n arfer teithio o gwmpas gyda band yn Affrica. Roedd fy mam yn gantores, ac roedd fy nhad yn rapiwr."* (WOW)

*cerddoriaeth efo 'mrawd a dal ati i chwarae."* (Porthi Dre)

*"Fe wnaeth fy chwaer ddechrau cerddoriaeth [piano], felly fe wnes i ymuno â hi."* (RecRock)

*"Y peth cyntaf wnaeth fy nghael i i mewn i gerddoriaeth oedd pan fu farw fy nhad. Fe wnaeth e fynd â fi i ŵyl metel trwm, aethon ni i weld Iron Maiden, Metallica, Guns 'N' Roses a Slipknot a System of a Down, y bandiau yna i gyd… a dyma fi'n dweud wrtho fe, "Dad, ai dyma'r gerddoriaeth ti'n moyn i fi gael mewn iddi?" A medde fe, "Ie, rwy'n credu y byddet ti'n dda." Rwy'n chwarae'r drymiau. Rwy wedi bod yn chwarae ers o'n i'n ddwy oed."* (RecRock)

*"Fe wnaeth fy chwaer ddechrau cerddoriaeth [piano], felly fe wnes i ymuno â hi."* (RecRock)


*"Fe wnes i ddechrau canu pan o'n i'n bump oed. Wnes i ddim dechrau canu caneuon Saesneg, fe wnes i ddechrau canu caneuon yn fy iaith i. Wedyn dyma mam yn fy nghyflwyno i i'r grŵp ieuenctid fel y gallwn i ganu'r caneuon newydd, creu fy nghaneuon newydd."* (WOW)

*"Rwy'n cael gwersi piano y tu allan i'r ysgol, ond dim ond y llynedd wnes i ddechrau – pan o'n i'n 14 oed. Am y rhan fwyaf o fy mywyd, ro'n i'n dysgu fy hunan. "Hyd yn oed bryd hynny, ro'n i eisoes yn go dda ar y piano."* (Byd Bach)

Gwnaeth gweddill y cyfranogwyr fynegi eu bod wedi cael eu cyflwyno i gerddoriaeth am y tro cyntaf drwy ffrindiau, yr ysgol, y cyfryngau cymdeithasol neu drwy gymryd rhan mewn prosiect cerdd.

## *Pa gyfleoedd cerddorol wnaethoch chi gymryd rhan ynddyn nhw yn yr ysgol?*

Gwnaeth llawer o'r bobl ifanc fynegi eu bod wedi chwarae rolau ymarferol ym maes cerddoriaeth yn eu hysgolion, gyda 22% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod wedi bod mewn rhan o ryw fath o ensemble cerddorol neu gôr. Roedd 22% wedi ffurfio bandiau gyda ffrindiau ysgol.




*“Fe wnaethon ni gân am fod yn eco-gyfeillgar, rwy’n meddwl, achos ro’n i ar yr eco-gyngor. Weithiau ry’n ni'n creu caneuon i’r Eisteddfod, ac unrhyw ddigwyddiadau yn yr ysgol.”* (WOW)


*“Mae ganddon ni ein dosbarthiadau cerddoriaeth arferol, weithiau mae’r athrawon peripatetig yn dod i mewn i ddysgu offerynnau i ni.”* (Byd Bach)

*“Ry’n ni'n dysgu PBuzz ac ry’n ni'n dysgu recorder.* (WOW)

## *Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau cerddorol eraill y tu allan i'r ysgol?*

Yn naturiol, roedd cydberthynas rhwng nifer y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth ac amlder y prosiectau yn eu hardaloedd lleol.

*Roedd pobl ifanc a oedd yn byw mewn canolfannau trefol yn tueddu i fod â mwy o fynediad at brosiectau cerddoriaeth na'r rhai a oedd yn byw mewn cymunedau gwledig.*



### *Ydych chi wedi bod i unrhyw ddigwyddiadau cerddorol?*

Yn debyg i'r gydberthynas rhwng cymunedau gwledig ac amlder prosiectau cerddoriaeth, roedd yn amlwg bod *gan bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau gwledig lai o fynediad at ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw.*

Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr y siaradon ni â nhw o Borthi Dre (Caernarfon) wedi cael y cyfle i fynd i gyngerdd.

Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr y siaradon ni â nhw o Byd Bach wedi cael y cyfle i fynd i gyngerdd ar wahân i'w perfformiadau eu hunain drwy'r prosiect.

Mae hyn yn adlewyrchu adborth ehangach y diwydiant bod yna lai o ddigwyddiadau byw ar gyfer y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig, gyda chrynodiadau o brosiectau a chyfleoedd ym maes cerddoriaeth yn bodoli mewn ardaloedd poblog yn bennaf, fel trefi a dinasoedd mawr. Mae'r diffyg lleoliadau ac arenâu â chapasiti mawr y tu allan i ranbarth De Cymru yn cyfyngu ar y cyfle i bobl ifanc fynd i berfformiadau gan artistiaid rhyngwladol sy'n teithio.[1]

Dywedodd pobl ifanc a oedd yn byw'n agosach at ddinasoedd, fel y bobl ifanc sy'n rhan o RecRock yng Nghaerffili, wrthym eu bod wedi bod i lawer o gyngherddau rhyngwladol mawr.

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am bobl ifanc Côr Un Byd Cymru, sy'n dod o gefndiroedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac a ddywedodd mai eu hunig gyfle i gymryd rhan mewn perfformiadau byw oedd trwy gymryd rhan yn eu rhaglen nhw.

[1] Paul Carr, *Mapio'r Diwydiannau Cerddoriaeth yng Nghymru: Adroddiad ar gyfer Cymru Greadigol* (Prifysgol De Cymru a Chymru Greadigol, 2020)

## 5.2 Rhwystrau i Gerddoriaeth

Yn yr adran hon, buom yn trafod pynciau mwy sensitif gyda'r cyfranogwyr ifanc i ddarganfod pa rwystrau roedden nhw wedi eu hwynebu’n bersonol wrth geisio manteisio ar gyfleoedd cerddorol.
Y cwestiynau a ofynnon ni oedd:

1. Ydych chi erioed wedi bod eisiau gwneud rhywbeth ym myd cerddoriaeth ond wedi methu? Ac os felly, beth ydych chi’n meddwl wnaeth eich atal?
2. Oes unrhyw gostau sy'n anodd i chi neu'ch teulu?
3. Ydych chi erioed wedi methu â chael profiad cerddorol oherwydd y gost?
4. Oes llawer o gyfleoedd ar gyfer prosiectau cerddoriaeth lle rydych chi'n byw?
5. Oes unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n anodd mynychu eich prosiect cerddoriaeth?
6. Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn eich gallu cerddorol?
7. Ydych chi'n teimlo'n hyderus i gymryd rhan mewn prosiectau cerdd?
8. Ydych chi’n berchen ar unrhyw offerynnau cerdd? Beth fyddech chi'n berchen arno pe gallech chi?
9. Oes unrhyw offer rydych chi'n dymuno cael mynediad atyn nhw?

### Canfyddiadau Allweddol

### *Ydych chi erioed wedi bod eisiau gwneud rhywbeth ym myd cerddoriaeth ond wedi methu? Ac os felly, beth ydych chi’n meddwl wnaeth eich atal?*

Mynegodd nifer o'r bobl ifanc y siaradon ni â nhw eu bod wedi dymuno manteisio ar gyfle ym myd cerddoriaeth, ond yn teimlo na allen nhw. Cafodd yr amryw resymau am hyn eu casglu a’u delweddu isod:




Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan y bobl ifanc oedd ***hyder*****.**

Roedd sawl ffurf i hyn, gan gynnwys:

- hyder ynddyn nhw eu hunain a'u sgiliau
- yr hyder i sefyll i fyny a chymryd rhan.

*"Roeddwn i eisiau gwneud – mae fy mrawd a fy nhad yn rapio ac [mae'n rhaid i ti] gydbwyso dy glustiau, gwrando arnat ti dy hun pan wyt ti'n rapio ac yn canu. Fe wnes i glywed hyn a meddwl, wel, dyw e ddim fy math i o beth. Creu curiadau, ie. Mae fy mam a fy nhad wedi dweud mai magu hyder yw popeth i mi."* (THU)

*"Roeddwn i eisiau codi a chanu gyda'r ysgol ond wnes i ddim oherwydd roeddwn i'n nerfus a dydw i ddim mor hyderus yn fy llais â llawer o bobl eraill. Fe wnes i wneud, ond mi ges i fy rhoi yn y cefndir, a chael fy moddi gan lawer o bobl eraill. Roeddwn i eisiau mynd allan yna a chanu'n unigol."* (Byd Bach)

Gwnaeth dau o'r cyfranogwyr o sefydliadau gwahanol ddatgelu eu bod nhw wedi cael eu hannog gan athrawon cerdd yn eu hysgolion i beidio â gwneud rhywbeth:

*"Pan oeddwn i yn y côr, roeddwn i eisiau canu mewn clyweliad. Wnaeth fy athro cerdd ddim gadael i mi."* (RecRock)

*"Fe wnes i siarad gyda fy athro am ganu unawd mewn cyngerdd arddangos adeg y Nadolig, ond fe wnaeth e fy niystyru a dweud, 'dydy canu ddim i ti, dydy canu unawd ddim i ti – cadw at y piano'."* (Byd Bach)

Mynegodd dau o'r cyfranogwyr, un o Porthi Dre ac un arall o Gôr WOW, fod ieithoedd wedi chwarae rhan ym mha mor hyderus oedden nhw:

*"[Iaith] yw'r rhwystr mwyaf tebygol oherwydd fydd canu yn Saesneg ddim yn mynd ar radio Cymraeg, sydd llawer haws cael arno."* (Porthi Dre)

*"Dw i ddim yn gwybod llawer o Saesneg. Weithiau dwi'n well gyda'r geiriau… [dwi'n siarad] Cymraeg, Saesneg, Pwnjabeg, Hindi ac Affganeg."* (WOW)

Mae Porthi Dre yn cefnogi amgylchedd sy'n meithrin ac yn annog pobl ifanc i ddathlu a chreu cerddoriaeth yn y Gymraeg, gan adlewyrchu cymuned gyfoethog y siaradwyr Cymraeg sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ardal Caernarfon.

Mae'r hwyluswyr yng Nghôr WOW yn cyfyngu ar effeithiau iaith fel rhwystr i bobl ifanc drwy ganiatáu iddyn nhw greu a pherfformio cerddoriaeth yn eu hieithoedd eu hunain. Fe wnaethon nhw rannu rhywfaint o'u cerddoriaeth wreiddiol a oedd yn cynnwys nifer o ieithoedd eu cyfranogwyr, fel Saesneg, Cymraeg, Pwnjabeg, Arabeg, Hindi, Iorwba a Ffrangeg.

## *Oes unrhyw gostau sy'n anodd i chi a'ch teulu?*

Mynegodd y cyfranogwyr fod mynediad at sesiynau am ddim, a'r defnydd o offerynnau, wedi bod yn gymorth mawr iddyn nhw eu hunain a'u teulu. Oherwydd hyn, roedd llawer yn ansicr neu'n ystyried nad ydyn nhw'n wynebu anawsterau ariannol.

Fodd bynnag, nododd y rhai a oedd yn ystyried eu bod yn wynebu anawsterau ariannol mai offer, offerynnau a theithio oedd y costau mwyaf.

*"Roedd yn rhaid i mam brynu car mawr achos mae'n rhaid i fy set ddrymiau ffitio ynddo – set Tama yw hi, mae hi'n anferth."* (RecRock)


*"Os wyt ti eisiau gwneud gigs go iawn, mae costau teithio'n ddrud iawn ar hyn o bryd."* (Byd Bach)

*"Mae offerynnau'n anhygoel o ddrud! Mae gen i fy Wesley, mae gen i fy Squier, mae gen i fy Strat, mae gen i fy PRS a'r bas. Ac ydych chi'n gwybod yr amps mae bandiau fel Nirvana a Guns'N'Roses yn eu defnyddio? Y rhai anferth, anferth yna? Mae gen i un o'r rheiny yn fy ystafell i."* (Byd Bach)

## *Oes unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n anodd mynychu eich prosiect cerddoriaeth?*

Teithio oedd yr ateb mwyaf cyffredin ymhlith y bobl ifanc i'r cwestiwn hwn, gan ategu'r sylwadau blaenorol ynghylch costau anodd.


Roedd amserlenni prysur llawer o'r bobl ifanc hefyd yn ffactor a drafodwyd, wrth i rai ei chael hi'n anodd dod o hyd i amser gan gydbwyso prosiectau allgyrsiol a chyfrifoldebau ysgol a gartref. Gwelwyd hyn yn arbennig ymhlith pobl ifanc oedd yn rhan o brosiectau creadigol neu chwaraeon eraill.




*"Doedd gen i ddim digon o amser yn fy amserlen i wneud [WOW]. Mae fy wythnos i'n llawn dop. Y cyngerdd aethon nhw iddo ychydig ddyddiau yn ôl, mi wnes i ei golli am fod yn rhaid i mi fynd i rywle. Mae gen i lawer o bethau - dw i'n gwneud Fiery Jacks [Syrcas Ieuenctid], No Fit State, a Taekwondo."* (WOW)

*"Os yw'r drymio ar yr un diwrnod â rygbi, ac mae'n newid... os fyddaf i'n chwarae i Gymru pan fydda i'n hŷn, alla i ddim chwarae'r drymiau."* (RecRock)

## *Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn eich gallu cerddorol?*




Roedd atebion cymysg ymysg y bobl ifanc i'r cwestiwn hwn.

Yn ffodus, roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo'n hyderus ynddynt eu hunain a'u gallu cerddorol.

Gwnaeth y rhai a atebodd 'ansicr' neu 'weithiau' ymhelaethu ymhellach gan ddweud eu bod:

- Yn teimlo'n hyderus ar un offeryn dros un arall
  *"Dw i ddim â dweud y gwir – nid yr allweddellau, [ond] drymiau, ydw."* (RecRock)
  *"Ar y piano. Gweddol ydw i am ganu, rwy'n gwella'n araf."* (Byd Bach)
- Yn profi gorbryder neu ofn ar lwyfan
  *"Rwy'n hyderus, ond gorbryder ac ati. Ac ofn ar lwyfan weithiau. Mae bod yn ofn ar lwyfan yn un mawr."* (RecRock)

## *Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn cymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth?*

Gan ymhelaethu ar y cwestiwn blaenorol, gofynnon ni i'r bobl ifanc a oedden nhw'n teimlo'n hyderus yn cymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth, i weld a oes modd i ni wybod o ble mae pobl ifanc yn cael eu hyder.

*"Rwy wedi gwneud rhyw bedwar [prosiect] fel hyn… RecRock yw'r unig un sydd wir wedi rhoi hwb i fy hyder i."* (RecRock)

*"Mae yna gryn dipyn o bobl yn ein lle ni, felly rwy'n teimlo'n hyderus. Mae yna gryn dipyn o ysgogiad yma."* (WOW)


Er bod rhai wedi dweud eu bod yn teimlo'n hyderus ynddyn nhw eu hunain a'u sgiliau cerddorol, roedden nhw'n aml yn ei chael hi'n anodd cael hyder i sefyll allan ymysg grŵp:

*"Roeddwn i eisiau gwneud cân gyda fy nghôr, ond yn amlwg mae yna lawer o bobl, felly doedd fy llais i ddim wir yn cael ei glywed. Roeddwn i eisiau dweud rhywbeth, ond roedd yna lawer o bobl felly doeddwn i ddim wir yn gallu gwneud hynny. Roedd yna gymaint o bobl, a doeddwn i ddim yn teimlo'n ddigon hyderus… ychydig o'r ddau."* (WOW)

## *Ydych chi'n berchen ar unrhyw offerynnau cerdd?*

Yr offeryn mwyaf poblogaidd ymhlith y bobl ifanc oedd allweddellau/piano (29%), ac yna gitâr (24%). Roedd gan rai o'r bobl ifanc sawl gitâr ar yr un pryd, gan gynnwys gitarau trydan ac acwstig gwahanol.


I nifer o'r cyfranogwyr, roedd eu hofferynnau wedi cael eu rhoi iddyn nhw'n anrhegion – boed yn anrhegion Nadolig neu'n fater o etifeddu offerynnau eu rhieni.




I rai o'r bobl ifanc, doedden nhw ddim yn teimlo'r angen i fod yn berchen ar lawer o offerynnau ar hyn o bryd am fod ganddyn nhw fynediad atyn nhw am ddim drwy fod yn rhan o'u prosiectau cerdd.

## *Pa offerynnau fyddech chi'n berchen arnyn nhw pe gallech chi?*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod ganddyn nhw fynediad at eu prif offeryn o ddewis – naill ai drwy fod yn berchen arno neu drwy fynediad ar y cyd drwy'r prosiect – ond y bydden nhw wrth eu bodd yn cael mwy o offerynnau i ehangu eu sgiliau ymhellach, rhoi cynnig ar gyfleoedd newydd a dysgu pethau newydd.



## 5.3 Profiad o'r Prosiectau a'r Cymorth a Gafwyd


Yn yr adran hon, gofynnon ni i'r cyfranogwyr fyfyrio ar eu profiadau o'r prosiectau cerdd, a sut maen nhw'n teimlo eu bod wedi cael eu cynorthwyo yn ystod y broses.
Y cwestiynau a ofynnon ni oedd:

1. Sut gawsoch chi wybod am y prosiect rydych chi arno ar hyn o bryd?
2. A wnaeth unrhyw beth neu unrhyw un eich helpu i gymryd rhan yn y prosiect hwn?
3. Beth sydd wedi bod yn dda am fod yn rhan o'r rhaglen hon?
4. Pa fathau o gymorth sydd wedi gwneud gwahaniaeth i chi?

### Canfyddiadau Allweddol


### *Sut gawsoch chi wybod am y prosiect rydych chi arno ar hyn o bryd?*

Cadarnhaodd 44% o'r cyfranogwyr fod eu rhieni neu aelod o'u teulu wedi eu helpu i gael mynediad at eu prosiect cerddorol. Roedd nifer o bobl ifanc (17%) eisoes wedi bod yn rhan o ryw agwedd ar eu sefydliad, fel adnabod hwylusydd neu fentor neu fod wedi mynychu prosiect blaenorol.





### *A wnaeth unrhyw beth neu unrhyw un eich helpu i gymryd rhan yn y prosiect hwn?*

Roedd canlyniadau tebyg yn codi yn yr ymatebion i'r cwestiwn canlynol, gyda rhai gwahaniaethau bach. Yn arwyddocaol, rôl y cyfryngau cymdeithasol (24%) o ran marchnata a hysbysebu i bobl ifanc, yn ogystal â'u rhieni. Mynegodd nifer o gyfranogwyr fod eu rhieni wedi dod yn ymwybodol o'r cyfle ar ôl gweld hysbyseb ar Facebook.



### *Beth sydd wedi bod yn dda am fod yn rhan o'r rhaglen hon?*




**Cymdeithasu a Dod i Gyswllt â Cherddorion Eraill**

Mynegodd rhai o'r bobl ifanc bwysigrwydd dod o hyd i le diogel i fynegi eu hunain a dod i gyswllt â phobl ifanc eraill â diddordebau cyffredin.
Yn enwedig i bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau gwledig, roedd y cyfle i gysylltu â cherddorion o'r un anian yn hynod o bwysig.
Roedd y cyfle i deithio a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn uchafbwynt ymhlith profiadau rhai o'r cyfranogwyr.

> *"Rydyn ni'n byw ynghanol caeau a choed. Felly, mae'n fater o drio mynd allan yna, cael pobl i chwarae gyda nhw… mae'n gyfyngedig iawn. […] Y tu allan i'r ysgol, rwy'n gweld nad yw llawer o bobl yn ei gymryd o ddifri. Felly mae cael pobl dibynadwy sydd wir eisiau ei wneud yn bwysig i mi."* (Byd Bach)

> *"Dw i'n hoffi teithio ac ati, felly'r holl gyngherddau a phethau. Bod allan yn y gymuned. Fe aethon ni i Borthcawl am breswyliad 3 diwrnod, i'r traeth."* (WOW)

Gwnaeth un unigolyn ifanc a oedd yn byw mewn cymuned wledig sôn hefyd am sut roedd y ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio yn effeithio ar eu gallu i gael mynediad at brosiectau cerddoriaeth a chymdeithasu ymhlith eu hoedran eu hunain:

> *"Mae dod o hyd i aelodau i'r band yn hunllef. Dw i wedi bod yn chwilio a bob tro, maen nhw'n dweud, 'rydyn ni eisiau person 68 oed i wneud y gig yma am fod ganddyn nhw brofiad' a dwi'n meddwl, 'ie, wel, alla i chwarae hefyd, pam, beth yw'r busnes gwirion yma o oedran?'"* (Byd Bach)

Gwnaeth un cyfranogwr rannu sut roedd eu prosiect cerddoriaeth wedi caniatáu iddyn nhw wneud ffrindiau, rhywbeth nad oedden nhw'n teimlo y gallen nhw ei wneud o'r blaen oherwydd bwlio yn yr ysgol:

*“Gyda’r Ysgol Roc, roeddwn i’n gallu gwneud mwy o ffrindiau. Dw i'n eithaf cyfyngedig o ran nifer y ffrindiau sydd gen i, achos mae llawer o bobl yn ein hysgol ni'n eithaf cas ac ofnadwy. Maen nhw naill ai'n gas iawn neu dydyn nhw ddim eisiau bod yn ffrindiau gyda mi achos rwy’n* weird *neu dydyn nhw ddim yn fy hoffi i. Felly, fe wnaeth yr Ysgol Roc ganiatáu i mi wneud ffrind. Mae hynny'n fuddiol i bobl ifanc yn enwedig rhai sy’n go ynysig ac ar eu pen eu hunain gryn dipyn yn eu bywyd bob dydd. Mae'n eu helpu i gyfathrebu â phobl eraill.”* (Byd Bach)


**Hwyl a Mwynhad**

Gwnaeth llawer o'r bobl ifanc fwynhau cael lle i gael hwyl drwy gerddoriaeth, a oedd hefyd o fudd cymdeithasol iddyn nhw gan eu bod yn gallu meithrin cysylltiadau a datblygu eu sgiliau gweithio mewn tîm:

*“[Rwy'n hoffi] gemau – gemau cerddoriaeth. Fel gyda'r drwm, ie? Pan fydd y person yn dweud 'dde', yna mae angen i chi godi eich llaw dde. Rhythmau gwahanol ac ati.”* (WOW)

*“Mae cerddoriaeth i fod yn hwyl. […] Mae'r math yna o bwysau [ysgafn] yn ei wneud yn hwyl – pan mae gen ti gyfnod penodol o amser i weithio gyda rhywun newydd a chreu rhywbeth. Mae'n gryn dipyn hwyl am eich bod chi’n rhoi'r amser a'r ymdrech i mewn iddo ac yna'n dod allan ohono ar ôl y perfformiad ac yn teimlo'n dda iawn amdanoch chi'ch hun.”* (Byd Bach)

## *Pa fathau o gymorth sydd wedi gwneud gwahaniaeth i chi?*




Mae atebion y cwestiwn blaenorol yn cael eu hadlewyrchu eto fan yma gan y cyfranogwyr ifanc, sy'n dangos bod y prosiectau wedi rhoi cymorth pwysig o ran hyder, cymdeithasu a datblygu sgiliau.

*"Mae wedi adeiladu fy hyder i fod yn llawer mwy nag y bu."* (RecRock)

*"Mae gallu creu cerddoriaeth wedi fy helpu i'n fawr mewn pethau fel ffiseg, mae wedi fy helpu i'n fawr yn Ffrangeg, Cymraeg, cemeg a bioleg. Mae gallu ymateb i gerddoriaeth pobl eraill wedi fy helpu i'n fawr. Yn Saesneg, mae cynnal sgwrs, gallu chwarae offeryn a'i chwarae'n iawn, yn debyg i gynnal sgwrs. Yr eiliadau hynny o dawelwch llwyr, sydd i ni, bobl, yn anghyfarwydd – fe fyddwch chi'n eu hadnabod mewn cerddoriaeth. Mae'n fater o allu trin cerddoriaeth yn rhugl fel rydyn ni'n trin Saesneg."* (Byd Bach)

*"Dw i wedi gwneud pedwar neu bump o ffrindiau newydd yna ac mae wedi fy helpu i ddod allan o 'nghragen."* (Porthi Dre)

*"Yr un mwyaf i mi oedd cael y cysylltiad cymdeithasol yna â cherddorion eraill a phobl o'r un anian [felly] maen nhw'n mynd i'w gymryd o ddifrif."* (Byd Bach)

*"Mae pobl wedi fy helpu i ganu a chyfansoddi caneuon."*(RecRock)

*"Mae'n dysgu sgiliau gwerthfawr iawn i chi. Rydych chi'n dysgu ymdrin â gwahanol fathau o bobl. […] Os ydych chi'n gallu gweithio gyda phobl, beth bynnag yw eu natur, mae hynny'n dda iawn. Mae hynny mor werthfawr."* (Byd Bach)

I bobl ifanc a oedd wedi wynebu bwlio neu a ddwedodd na allen nhw wneud rhywbeth yn gerddorol mewn cwestiwn blaenorol, roedd eu prosiectau yn gyfle i feithrin hyder a manteisio ar fannau lle nad oes barnu:

> *"Rwy'n gwybod ei fod yn fan diogel ac rwy'n gwybod nad yw pobl yn mynd i fy marnu i oherwydd yr hyn rwy'n ei wneud. Fe allaf i ollwng gafael a gwneud pethau gwallgof."* (Byd Bach)

## 5.4 Y Dyfodol

I gloi ein trafodaethau gyda'r bobl ifanc, roedden ni eisiau gwybod sut maen nhw'n rhagweld y bydd cerddoriaeth yn chwarae rhan yn eu dyfodol.
Y cwestiynau a ofynnon ni oedd:

1. Sut ydych chi'n meddwl y gall eich rhaglen bresennol eich helpu? Beth ydych chi eisiau ei ennill ohoni?
2. Sut ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n parhau â cherddoriaeth ar ôl i'r prosiect yma ddod i ben?
3. Sut beth hoffech chi i'ch dyfodol fod ym myd cerddoriaeth?
4. Oes unrhyw beth allai eich atal rhag dilyn trywydd cerddorol yn y dyfodol?
5. Pe gallech chi newid un peth i helpu pobl ifanc fel chi i fynd i mewn i fyd cerddoriaeth, beth fyddai hynny?

### Canfyddiadau Allweddol

#### ***Sut ydych chi'n meddwl y gall eich rhaglen bresennol eich helpu? Beth ydych chi eisiau ei ennill ohoni?***

Gwnaeth y bobl ifanc y siaradon ni â nhw gynnig ystod eang o bethau roedden nhw eisiau ei gymryd o'u cyfranogiad. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd mwy o hyder a chymdeithasu yn bwysig iddynt.  Roedden nhw hefyd yn dymuno mireinio eu sgiliau a chael llwyfan i arddangos eu cerddoriaeth.




*"Mae wedi bod yn daith ddysgu. Rwy'n gobeithio ceisio dal ati ar ôl Porthi Dre. [Dw i eisiau] cyhoeddusrwydd, fel bod pobl yn gwybod amdanom ni a bod mwy o siawns i'r band lwyddo."* (Porthi Dre)

*"Roeddwn i eisiau'r profiad. Dw i erioed wedi chwarae gyda cherddorion eraill, heblaw am ddeuawd ar y piano. Felly, mae'n braf cael y profiad newydd yna."* (RecRock)


*"Rwy eisiau gwella fy sgiliau drymio, o ran byrfyfyrio a phethau fel yna."* (RecRock)

*"Efallai yn y dyfodol y gallwn i a'r band wneud ambell gyngerdd. Efallai y gallen ni fanteisio o hynny a dod yn enwog."* (Porthi Dre)

*"Mae'n eich dysgu chi i fod yn wydn ac yn hyblyg."* (Byd Bach)

## Sut ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n parhau â cherddoriaeth ar ôl i'r prosiect yma ddod i ben?

Byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc barhau gyda'u sefydliad pe bai'r dewis hwnnw'n cael ei gynnig iddynt. Os na allen nhw wneud hyn (am resymau personol neu os na fyddai'r rhaglen yn parhau), roedden nhw'n cyfleu y bydden nhw naill ai'n mynd ati i chwilio am gyfleoedd cerddorol eraill neu'n parhau â cherddoriaeth yn eu hamser eu hunain.





*Os bydd fy mand i'n aros gyda'i gilydd, mwy na thebyg y byddwn ni'n cwrdd yn nhai ein gilydd ac yn dal ati. Yn dal i ymarfer, yn dal i sgwennu."* (Porthi Dre)

*"[Hoffwn i] fod yn fentor yn RecRock."* (RecRock)

## *Sut beth hoffech chi i'ch dyfodol fod ym myd cerddoriaeth?*

O blith y bobl ifanc a ddwedodd eu bod yn dymuno dilyn trywydd cerddorol ymhellach, perfformio oedd y llwybr mwyaf poblogaidd.

Mynegodd cyfranogwyr eraill eu bod yn dymuno dilyn gyrfaoedd yn cyfansoddi caneuon neu greu curiadau ar ôl ymwneud â'r meysydd hyn yn eu prosiectau.




*"Hoffwn i gael dilynwyr sy'n gwrando ar fy ngherddoriaeth, a chreu mwy o ganeuon o ansawdd uwch a'u postio."* (Porthi Dre)


*"Rwy eisiau [gwneud nifer o] bethau. Rwy i eisiau bod yn artist ym myd cerddoriaeth; rwy eisiau bod yn berchennog busnes. Rwy eisiau bod yn rhydd!"* (WOW)

*"Rwy'n anelu at fod yn berfformiwr – yn actor, yn gerddor, felly dyna pam rwy'n mynd i Theatr Byd Bach."* (Byd Bach)

Mynegodd rhai o'r cyfranogwyr fod ganddyn nhw nodau gyrfa eraill (fel paentio, actio, ffilmiau neu fod yn bydwreigiaeth), neu'n dymuno dilyn trywydd cerddorol fel hobi er mwyn ei fwynhau. Mae hyn hefyd yr un mor ddilys â dilyn gyrfa ym myd cerddoriaeth yn y dyfodol.

## *Oes unrhyw beth allai eich atal rhag dilyn trywydd cerddorol yn y dyfodol?*

Credai nifer o'r bobl ifanc na fyddai dim yn eu hatal rhag dilyn eu huchelgeisiau cerddorol, ond i'r rhai a ragwelai rwystrau, hyder eto oedd eu prif reswm.




*"Mae'n siŵr mai hyder fyswn i'n ei ddweud. Mae hyder yn beth mawr."* (Porthi Dre)

*"Fe fydden i'n dweud cost a theithio."* (RecRock)

*"Hunan-barch… rhoi'r gorau iddi. Dw i wedi rhoi'r gorau i'r gitâr tua phum gwaith."* (RecRock)

*"Teithio fyswn i'n ei ddweud, achos mae'n debyg y byddai'n rhaid i mi deithio i wahanol leoedd i gael cyfleoedd mawr."* (Porthi Dre)

## *Pe gallech chi newid un peth i helpu pobl ifanc fel chi i fynd i mewn i fyd cerddoriaeth, beth fyddai hynny?*



*“Anfonwch nhw i RecRock!”* (RecRock)

*“Gadewch iddyn nhw fynd ar eu cyflymder eu hunain, dim ond eu cymell nhw’n ysgafn i ddod. Ella y gallan nhw ddechrau drwy redeg i mewn, chwarae efo rhywbeth ac yna mynd nôl allan. Un diwrnod, mi fyddan nhw'n aros ac yn dal ati i symud.”* (Porthi Dre)

*“Ewch i leoedd eraill i ddangos hip hop i bawb a chael pobl i gymryd rhan.”* (THU Collective)

*“Nid beirniadaeth go iawn sydd gen i am yr Ysgol Roc, ond doedd dim llawer o bobl. Roedd 'na ryw 17 ohonon ni – dychmygwch hynny, ond tase 'na 100 ohonon ni!"* (Byd Bach)

“Rydyn ni eisiau Ysgol Roc! Mwy o Ysgol Roc!” (Byd Bach)

“Mi fyswn i’n rhoi ysgolion canu a mwy o leoedd fel yma i blant eraill wrando a dysgu am gerddoriaeth.” (Porthi Dre)

“Mwy o gyfleoedd diogel, lle mae'n gyfforddus.” (Byd Bach)

“[Dwedwch wrthyn nhw,] peidiwch â bod ofn – peidiwch â bod ofn mwynhau eich hunain!” (RecRock)

“Gwnewch o'n hwyl… gwnewch o'n groesawgar.” (Porthi Dre)

# MYFYRDODAU'R SEFYDLIADAU

Yn ogystal â'n hymgynghoriad â'r cyfranogwyr ifanc, fe wnaethon ni siarad hefyd â dau o sefydliadau Atsain i fyfyrio ar ba rwystrau wnaethon nhw eu profi wrth hwyluso eu prosiectau.

## 6.1 Arsylwadau Cychwynnol

Cyn i'r rhaglenni gychwyn, gwnaeth pob un o'r saith o sefydliadau Atsain 24/25 roi cipolwg i ni ar y rhwystrau economaidd-gymdeithasol yr oedd pobl ifanc yn eu cymunedau yn eu hwynebu, a sut y byddai eu prosiectau'n ceisio mynd i'r afael â hyn:

**THU Arts Collective**

"Mae Llanhiledd yn safle 250 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac yn ardal sy'n adnabyddus am fod wedi'i thanariannu, sy'n cyfrannu at ddyheadau isel, iechyd meddwl gwael, a mynediad cyfyngedig at gyfleoedd creadigol."

"Mae teuluoedd yn yr ardal hon yn wynebu caledi ariannol, ynysigrwydd cymdeithasol, ac annhegwch systemig sy'n cyfyngu ar fynediad at weithgareddau fforddiadwy, ystyrlon."

"[Mae] galw am raglenni creadigol, cynhwysol, cost isel/am ddim. Mae Hip Hop Harmony yn llenwi'r bwlch hwn, gan ddarparu gweithdai cylchol sy'n annog hunanfynegiant, meithrin cysylltiadau rhwng cenedlaethau, ac adeiladu sgiliau."

**Theatr Byd Bach**

"Mae Aberteifi yn uchel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac mae rhai o'i wardiau ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yn y wlad. Mae'r ardal yn wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys incwm isel, cyflogaeth gyfyngedig, ac ynysigrwydd gwledig."

"I bobl ifanc yn yr ardal hon sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth, prin yw'r cyfleoedd i ddod i gyswllt ag eraill neu i greu cerddoriaeth am ddim. Mae'r rhwystrau hyn yn cyfrannu at iechyd meddwl gwael ac yn cyfyngu ar fynediad i'r diwydiant cerddoriaeth.

"Nod ein gweithdai yw gwrthsefyll rhwystrau drwy ddarparu amgylchedd cefnogol, gyda ffiniau clir lle nad oes barnu, lle gall cyfranogwyr feithrin hyder, ennill sgiliau ymarferol, a datblygu ymdeimlad o berthyn. Drwy gynnig gweithdai am ddim a mynediad at offer, rydyn ni'n ei gwneud hi'n fwy hygyrch i bobl efallai na fyddai byth yn dod i gyswllt â cherddoriaeth i gymryd rhan yn y maes.

**RecRock**

“Nod RecRock yw darparu gweithdai am ddim i bobl o gefndiroedd difreintiedig ac sydd wedi’u hynysu’n gymdeithasol, er mwyn gwella hyder a llesiant drwy weithgareddau cerddorol.”

“Ynysigrwydd cymdeithasol yw'r broblem fwyaf y mae pobl ifanc a'u rhieni wedi'i chyfleu. Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo ei bod yn anodd cymdeithasu neu ddod o hyd i bobl sydd â'r un diddordebau â nhw. Maen nhw wedi cyfeirio at ddiffyg gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol, a dywedodd rhieni mai [ein prosiect ni] yw un o'r unig adegau y mae pobl ifanc yn cymdeithasu i ffwrdd o'u ffonau neu eu cyfrifiaduron.”

“Rhai o'r rhwystrau i bobl ifanc ar hyn o bryd yw bylchau cenedlaethau LHDT, hyder isel, adegau o orbryder, cyflogadwyedd, a llawer o stigma ynghylch iechyd meddwl.”

**Porthi Dre**

“Bydd y prosiect hwn yn grymuso pobl ifanc sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghaernarfon drwy gynhyrchu cerddoriaeth, ysgrifennu caneuon a pherfformio. Bydd y prosiect yn meithrin hyder, creadigrwydd, hunanfynegiant a llesiant.”

“Mae wardiau Cadnant a Peblig ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae llawer o blant yn dweud nad oes ganddyn nhw offerynnau cerdd gartref ac yn ymwybodol na all eu teuluoedd flaenoriaethu gwersi cerdd. Mae yna gred ddiwylliannol nad yw cerddoriaeth yn llwybr gyrfa sy'n ymarferol yn ariannol.”

“Mae gan Gaernarfon gymuned Gymraeg gref. Mae hyn, ynghyd â'i lleoliad gwledig, hefyd yn cyfyngu ar fynediad at adnoddau cerdd, sydd yn aml heb ddigon o gynrychiolaeth ac yn cael ei hystyried yn ddiddordeb dosbarth canol.

**Côr Un Byd Cymru**

Mae ein côr yn achubiaeth i lawer o bobl sy'n wynebu ailgychwyn eu bywydau mewn gwlad newydd; a hynny’n aml mewn iaith sy'n newydd iddyn nhw. Mae iaith cerddoriaeth yn mynd y tu hwnt i'r rhwystrau hyn.

“Mae llawer o'r bobl ifanc rydyn ni’n ymwneud â nhw wedi profi adfyd yn eu bywydau fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Nid oes ganddyn nhw fynediad at arian i dalu am gyfleoedd i greu cerddoriaeth y tu allan i'r ysgol.

Bydd y prosiect hwn yn creu cyfleoedd i'r bobl ifanc gael profiadau newydd o greu cerddoriaeth, a fydd yn herio ac yn codi eu disgwyliadau o'r hyn sy'n bosibl. Sgiliau newydd, mwy o hyder, meithrin hunan-barch a dyheadau.

## 6.2 Myfyrdodau ar ôl y Prosiectau

Ar ôl bod yn rhedeg eu rhaglenni, cynigiodd dau o'r sefydliadau – THU Arts Collective a Theatr Byd Bach – adborth i ni a gasglwyd o weithio ochr yn ochr â'u pobl ifanc.

### *Beth ydych chi'n meddwl yw'r prif rwystrau economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw?*

Dywedodd y ddau sefydliad fod eu pobl ifanc yn wynebu rhwystrau sy'n gorgyffwrdd, a oedd yn cynnwys rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn flaenorol o'r arsylwadau cychwynnol:

*"Mae'r bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn wynebu nifer o rwystrau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys lefelau uchel o amddifadedd, mynediad cyfyngedig at gyfleoedd, a chyfyngiadau ariannol. Mewn ardaloedd [gwledig] fel Llanhiledd a Brynithel, mae trafnidiaeth gyhoeddus annibynadwy yn cyfyngu ymhellach ar fynediad at weithgareddau a gwasanaethau."*

*"Gall yr heriau hyn arwain at hyder isel, dyheadau is, ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn enwedig lle mae darpariaeth i bobl ifanc yn gyfyngedig."*

*"Rwy'n meddwl cwrdd â phobl ifanc eraill y gallan nhw chwarae gyda nhw. Mae teithio hefyd yn broblem i gyfranogwyr yng ngorllewin Cymru wledig/arfordirol; os nad oes ganddyn nhw rieni sy'n gallu / sy'n barod i'w gyrru nhw a'u hofferynnau o gwmpas, yna maen nhw dan anfantais – yn enwedig os oes ganddyn nhw offer trwm."*

*"Mae cost offer o ansawdd da hefyd yn rhwystr, yn enwedig deciau ar gyfer y grŵp DJ."*

### *Sut mae'r rhwystrau hyn yn effeithio ar eu cyfranogiad yn eich rhaglenni?*

*"Gall y rhwystrau hyn gyfyngu ar ymgysylltiad cychwynnol, o ystyried bod rhai pobl yn brin o hyder, adnoddau, neu gefnogaeth i gymryd rhan. Gall heriau teithio a chyfyngiadau ariannol hefyd effeithio ar bresenoldeb cyson."*

*"Hyd yn hyn, mae rhai pobl wedi cyrraedd yn hwyr am fod yn rhaid iddyn nhw ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Fe gawsom ni hefyd gyfranogwyr nad oedd yn gallu dod â'u hofferynnau eu hunain am eu bod nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus."*

***Sut ydych chi'n sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau economaidd-gymdeithasol? Pa gymorth mae eich sefydliad yn ei ddarparu i oresgyn y rhwystrau hyn?***

Gallwn weld enghreifftiau ymarferol o sut mae sefydliadau wedi ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad at brosiectau cerddoriaeth:

*“Rydyn ni’n darparu gweithdai am ddim yn lleol, i ddileu rhwystrau ariannol a rhwystrau teithio, gan sicrhau bod y sesiynau'n hygyrch o fewn cymunedau'r cyfranogwyr eu hunain.*

*“Caiff ein darpariaeth ei chynorthwyo gan hwyluswyr profiadol, gan gynnwys artistiaid o Gymru sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth gan MOBO, sy'n dod ag arbenigedd proffesiynol a phrofiad bywyd o gymunedau'r cyfranogwyr. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd cydnaws, cynhwysol lle mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi.”*

*“Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol dibynadwy i sicrhau bod cyfranogwyr yn derbyn anogaeth a chefnogaeth gyson i gymryd rhan.”*


*“Mae'r gweithgareddau rydyn ni'n eu cynnig yn cael eu darparu am ddim i'r bobl ifanc sy'n bresennol.”*

*“Mae amrywiaeth o offerynnau ac offer ar gael i bobl eu defnyddio yn ystod sesiynau. Yn anffodus, does gennym ni ddim o’r adnoddau i gynnig bwrsariaethau a chymorth teithio ar hyn o bryd.*

Mae'r sefydliadau wedi cymryd camau i roi darpariaethau penodol ar waith i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhwystrau hyn, sy'n cynnwys:

- Sesiynau am ddim
- Mynediad am ddim i offer ac offerynnau
- Bwyd a byrbrydau am ddim
- Gwasanaethau bws mini / trafnidiaeth am ddim

Roedd y bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn sôn yn gadarnhaol am y darpariaethau penodol hyn, ac yn dweud bod nifer ohonyn nhw wedi eu helpu i allu cymryd rhan yn eu prosiectau.




## *Beth weithiodd yn dda i chi wrth gynorthwyo pobl ifanc ar eich rhaglen?*

Gallwn weld bod y gallu i greu mannau diogel, creadigol i bobl ifanc wedi bod yn allweddol i ddatblygiad eu hyder a'u twf cerddorol yn y ddau sefydliad.

*“Roedd ein partneriaeth gydag Off The Streets yn allweddol i lwyddiant y rhaglen. Fe wnaeth eu perthnasoedd cryf â phobl ifanc a'u teuluoedd helpu i feithrin ymddiriedaeth ac annog ymgysylltiad cyson.”*

*Roedd cael gweithwyr ieuenctid yn bresennol drwy gydol y sesiynau yn rhoi sicrwydd a pharhad, gan helpu i leihau unrhyw bryderon cychwynnol ynglŷn â chymryd rhan yn ein gweithdai. Gwnaeth y dull cydweithredol hwn, ynghyd â'n dull cynhwysol a dan arweiniad y cyfranogwyr o ran darparu, greu amgylchedd cefnogol lle teimlai’r bobl ifanc yn hyderus i ymgysylltu, rhoi cynnig ar bethau newydd, a mynegi eu hunain yn greadigol.”*

*“Roedd yn wych gweld y prosiect yn datblygu a gweld y bobl ifanc yn magu hyder. Roedden nhw i gyd mor gadarnhaol am y profiad.* ***Fe wnaethon ni greu gofod lle'r oedd pawb yn teimlo y gallen nhw gyfrannu ac yn teimlo'n hyderus i berfformio****.”*

*“Gofynnon ni i'r bobl ifanc roi sgôr o 1 i 10 am sut roedden nhw'n teimlo ar ddechrau a diwedd pob diwrnod, ac roedd y sgoriau [wastad] mor uchel ar ddiwedd pob diwrnod, sy'n dweud llawer wrthyf i am y gefnogaeth roedden nhw'n ei phrofi.”*

*“Roedd y cerddorion oedd yn gweithio ar y rhaglen yn eithriadol o dda am gefnogi'r bobl ifanc ac roedd teimlad enfawr o gefnogaeth rhyngddyn nhw a'r bobl ifanc tuag at ei gilydd.”*

### *Sut ydych chi'n diffinio llwyddiant i'ch sefydliad a'ch prosiectau cerddoriaeth?*

*"Rydyn ni'n diffinio llwyddiant drwy ymgysylltiad ac effaith. Dros gyfnod y prosiect hwn, cynyddodd nifer y cyfranogwyr o 15 yn y gweithdai cychwynnol i 34 mewn sesiynau diweddarach, gan ddangos twf mewn diddordeb ac ymgysylltiad parhaus."*

*"Roedd yr adborth gan bobl ifanc, cyfranogwyr, a gweithwyr proffesiynol yn rhyfeddol o gadarnhaol, a phawb yn mynegi awydd i barhau i weithio gyda ni. Mae llwyddiant hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn dilyniant, wrth i brosiectau pellach gael eu datblygu nawr mewn partneriaeth ag Off The Streets, wedi'u gyrru gan alw'r cyfranogwyr ac ymgysylltiad parhaus."*

***"Pobl ifanc hapus, hwyluswyr hapus, cynulleidfa hapus yn y perfformiad olaf**."*

*"Y ffaith bod galw enfawr am ragor o sesiynau."*

### *Ydych chi'n cyfeirio at weithgareddau neu lwybrau dilyniant eraill ym maes cerddoriaeth?*

*"Mae ein gwaith yn parhau ym Mlaenau Gwent a thrwy'r prosiect hwn rydyn ni bellach wedi partneru ag Off The Streets, sydd wedi ein galluogi nid yn unig i gynnal gweithdai pellach, ond hefyd Prosiectau Creadigol dan arweiniad y cyfranogwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i bawb sy'n rhan o hyn archwilio rhai agweddau ar ein gweithdai ymhellach."*

*"Rydyn ni'n cyfeirio pobl ifanc at unrhyw gyfleoedd cerddorol rydyn ni'n ymwybodol ohonyn nhw. Rydyn ni hefyd yn eu gwneud nhw'n ymwybodol o'r cwrs cerddoriaeth yng Ngholeg Sir Benfro a BIMM ym Mryste os oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn cerddoriaeth fel gyrfa.*

Gwnaeth rhai o'r bobl ifanc y siaradon ni â nhw, a oedd yn ymwneud â sefydliadau eraill, gynnig sawl enghraifft o brosiectau/cyfleoedd cerddorol y cawson nhw eu cyfeirio atyn nhw, ac roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi chwarae rhyw ran yn eu prosiect cerddorol.

## *Beth fyddai'n helpu eich sefydliad i wneud mwy o ran cynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau economaidd-gymdeithasol i gerddoriaeth?*

*"Byddai rhagor o gyfleoedd cyllido hyblyg a chynaliadwy yn ein galluogi i ehangu ein cyrhaeddiad a darparu rhaglenni mwy cyson, hirdymor. Byddai hyn yn caniatáu i ni ymgysylltu â mwy o bobl ifanc, darparu cyfleoedd dilyniant, ac adeiladu llwybrau cryfach i ddatblygiad creadigol, addysg, a chyflogaeth."*

*"Byddai mwy o gyllid yn ein galluogi i helpu gyda theithio; byddai rhoddion ar ffurf offerynnau yn ein helpu i ddarparu mwy o gyfleoedd i'n cyfranogwyr ddysgu."*

## *A oes partneriaethau, cyllid neu newidiadau yr hoffech eu gweld?*

*"Byddai ymgysylltiad a chydweithrediad cryfach â Gwasanaethau Ieuenctid lleol (CBSBG) yn helpu i ehangu ein cyrhaeddiad a chysylltu pobl ifanc yn well â chyfleoedd creadigol."*

*"Mae partneriaethau parhaus, gan weithio gyda sefydliadau fel Off The Streets, wedi profi'n hynod effeithiol, a byddem yn croesawu cyfleoedd pellach i gryfhau ac ehangu'r mathau hyn o gyfleoedd cydweithredol."*

*"Byddem wrth ein bodd yn gwneud Tonau yn brosiect ieuenctid parhaol yma yn Byd Bach ac rydyn ni'n gwneud cais am arian i geisio gwireddu hyn. Byddem ni hefyd wrth ein bodd yn partneru [gydag] Ysgolion Roc a phrosiectau DJio eraill a gwneud rhywfaint o gyfnewid/rhannu ein profiadau efallai.*



## CASGLIAD: SYMUD YMLAEN

Ar draws yr holl sefydliadau a fu'n rhan o'r rhaglen, hyder ddaeth i'r amlwg fel y rhwystr mwyaf cyson. Roedd heriau'n ymwneud â hyder yn croestorri â phrofiadau digalon blaenorol yn yr ysgol, gorbryder a diffyg cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn amgylchedd cefnogol. Roedd prosiectau cerddoriaeth wedi bod yn allweddol i'w twf fel cerddorion ac fel pobl ifanc wrth iddyn nhw ddarganfod eu hunaniaethau creadigol unigryw.

Mae pobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn parhau i brofi llai o gyfleoedd ar ffurf prosiectau cerddoriaeth lleol, mynediad cyfyngedig at ddigwyddiadau byw a heriau teithio sylweddol sy'n effeithio ar eu cyfranogiad. Roedd y bobl ifanc a'r sefydliadau'n nodi'n gyson bod teithio yn brif rwystr, gan effeithio ar fynediad cychwynnol ac ar ba mor gyson yw'r ymgysylltiad.

Mae rhwystrau ariannol hefyd yn parhau i fod yn fater sylweddol i lawer o bobl ifanc a'u teuluoedd. Mae cost offerynnau, offer a theithio yn parhau i gyfyngu ar gyfranogiad, hyd yn oed pan fo angerdd a thalent yn bresennol. Ceisiodd nifer o sefydliadau a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad wrthweithio'r anghydraddoldebau hyn drwy gynnig sesiynau, offerynnau, bwyd a thrafnidiaeth am ddim, gan sicrhau na allai'r gost fod yn rhwystr na ellid ei oresgyn. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyllid, nid yw llawer o sefydliadau ar hyn o bryd yn gallu darparu agweddau ar gymorth.

Er yr heriau hyn, mae'r ymgynghoriad wedi amlygu'r gwerth trawsffurfiol sydd i brosiectau cerddoriaeth hygyrch i bobl ifanc yng Nghymru. Gwnaeth y cyfranogwyr y buom yn siarad â nhw gyfeirio at gynnydd go iawn o ran hyder, lles, cysylltiad cymdeithasol a datblygiad cerddorol corfforol o ganlyniad uniongyrchol i'w cyfranogiad yn y prosiectau a ariannwyd gan Atsain.

Drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau croestoriadol hyn, gall diwydiant cerddoriaeth Cymru – a'r ecosystem ehangach o'i amgylch – sicrhau bod pob person ifanc yn gallu ymgysylltu â cherddoriaeth yn ystyrlon, yn hyderus, a heb gyfyngiad.

# LLYFRYDDIAETH

Anthem. Cronfa Gerdd Cymru, 'Adroddiad Effaith 2021 – 2024' (Anthem: Caerdydd, 2024)

Anthem. Cronfa Gerdd Cymru, 'Cenhadaeth Strategol 2026 – 2030' (Anthem: Caerdydd, 2026)

Carr, Paul, *Mapio'r Diwydiannau Cerddoriaeth yng Nghymru: Adroddiad ar gyfer Cymru Greadigol* (Prifysgol De Cymru/Cymru Greadigol: Caerdydd, 2020)

Holford, Anita, 'Creu a Dysgu Cerddoriaeth yng Nghymru' (Anthem, Youth Music: Caerdydd, 2020)

Hunt-Humphries, Violet, 'Ymgynghoriad â Phobl Ifanc Greadigol sy'n Byw yng Nghymru' (Anthem: Caerdydd, 2022)

McBain, Kate a Dan Tsu, *Industry Connect* (Youth Music: 2022)

Woods, Michael, Jesse Heley, Helen Howells a Bryonny Goodwin-Hawkins, *Gweledigaeth Wledig i Gymru: Cymunedau Ffyniannus ar gyfer y Dyfodol* (Prifysgol Aberystwyth, CLlLC, ROBUST: Aberystwyth, 2021)